ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion

Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn

Ymateb Llywodraeth Cymru

| |
|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>**Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion** |
| **Manylion yr adroddiad**<br><br>Mewn ymateb i Lythyr Cylch Gwaith Estyn 2018-19 gofynnodd y Gweinidog am gyngor ynghylch cynnydd Datblygu Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol yng Nghymru. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**<br><br>Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud i ddatblygu Polisi Datblygu Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol dros y blynyddoedd diwethaf i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o bob cwr o Gymru sy'n manylu am gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cael eu darparu i staff. Mae'r adroddiad yn edrych ar y dysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion drwy lwybrau ffurfiol ac anffurfiol gan gynnu sylw at feysydd sydd wedi datblygu'n dda iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a nodi'r meysydd sydd angen parhau i ddatblygu fel sicrhau ffordd gyson o ddatblygu arweinyddiaeth.<br><br>Nid oes argymhellion i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn. |
| **Argymhelliad 1**<br><br>**I wella darpariaeth ac ansawdd datblygu arweinyddiaeth, dylai consortia rhanbarthol a darparwyr dysgu proffesiynol eraill weithio gyda'i gilydd i ystyried:**<br><br>A1 Sut i gynyddu'r ffocws ar ddatblygu gallu arweinwyr i ysgogi gwelliant yn ansawdd addysgu a dysgu |
| **Argymhelliad 2**<br><br>**I wella darpariaeth ac ansawdd datblygu arweinyddiaeth, dylai consortia rhanbarthol a darparwyr dysgu proffesiynol eraill weithio gyda'i gilydd i ystyried:**<br><br>A2 Sut orau i werthuso effaith rhaglenni datblygu arweinyddiaeth dros gyfnod<br><br>Bydd cangen Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at holl bartneriaid a darparwyr datblygu arweinyddiaeth, gan gynnwys yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, i dynnu sylw at |

| |
|---|
| yr adroddiad hwn a'r argymhellion ar eu cyfer.<br>Bydd y Gangen Datblygu Arweinyddiaeth hefyd yn gweithio gyda'r Academi i weld beth yw'r ffordd orau o gefnogi argymhellion yr adroddiad hwn. |
| **Manylion cyhoeddi.**<br><br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 03 Mawrth a gellir dod o hyd iddo ar wefan Estyn: https://www.estyn.gov.wales/ |

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol 978-1-80038-303-6

© Hawlfraint y goron Mawrth 2020
WG40341